

Disgrifiad Swydd

Teitl Swydd:	Swyddog Datblygu Pobl Ifanc Rhan Amser
Cyflogir gan:	Challenge Wales.
Yn atebol i:	Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
Rheolwr Llinell:	Rheolwr Datblygu Busnes
Gwiriadau Hanfodol:	Gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ynghyd â geirdaon
Oriau gwaith:	Rhan amser - 20 awr yr wythnos yn ddelfrydol, ond gellir bod yn hyblyg.
Cyflog:	£13,000
Tymor:	Mae hwn yn gontract cychwynnol o dair blynedd a ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr.
Dyddiad Dechrau:	Cyn gynted â phosibl
Sut i wneud cais:	Anfon CV a llythyr eglurhaol yn egluro pam eich bod yn credu eich bod yn addas ar gyfer y rôl. Dylid anfon CVs dros e-bost at: Vicky@challengewales.org neu'r drwy'r post at: Vicky Williams, Her Cymru, 20 Glebe Street, Penarth, Bro Morgannwg, CF64 1EE.

Diben y swydd:

Helpu Her Cymru i ddatblygu a darparu rhaglen hyfforddiant hwyllo achrededig o ansawdd uchel i bobl ifanc yn unol ag ASDAN ac Agored Cymru, gan fonitro adborth a sicrhau bod pobl ifanc rhwng 12 a 18 ac 20 a 25 oed yn cael y profiad addysgol gorau gan Her Cymru.

Datblygu cydberthnasau ag amrywiaeth o sefydliadau ieuenctid ledled Cymru.

Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd hefyd weithio bob amser gan roi ystyried polisïau Her Cymru ar gydraddoldeb ac amrywiaeth yn ogystal ag iechyd a diogelwch.

Mae'r rôl wedi'i lleoli mewn swyddfa, er y gellir cynnal ychydig o'r gwaith ar fwrdd Llong Hyfforddiant Hwyllo Her Cymru.

Prif Ddyletswyddau:

- Ar y cyd â Meistr y Llong a'r Ganolfan Achredu, datblygu a strwythuro mordeithiau Her Cymru er mwyn galluogi canlyniadau dysgu achrededig
- Nodi a datblygu gweithgareddau ar gyfer grwpiau oedran gwahanol ar Her Cymru gyda chanlyniadau y gellir eu mesur
- Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddysgu ar fwrdd y llong
- Nodi a datblygu deunyddiau/adnoddau dysgu sydd eu hangen i gyflawni canlyniadau achrededig a gweithio tuag at ddatblygu'r rhain, gan sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau presennol
- Hysbysu gwirfoddolwyr am y ffordd y caiff gweithgarwch Achrededig ei gyflawni a'u helpu i ddeall buddiannau achredu mordeithiau hyfforddiant hwyllo
- Datblygu partneriaethau ac arferion ymarferol fel bod cyrff atgyfeirio (e.e. gwasanaethau troseddswyr ifanc, ysgolion ac ati) wedi'u cefnogi'n llawn cyn mynd ar fordaith ac ar ôl dychwelyd, er mwyn manteisio i'r eithaf ar ganlyniadau dysgu.
- Cefnogi pobl ifanc a'u hasiantau atgyfeirio, cyn y fordaith ac ar ôl dychwelyd, gan gwblhau'r tasgau angenrheidiol er mwyn sicrhau canlyniadau dysgu achrededig.
- Cynnal gwerthusiadau, adolygiadau ac asesiadau, gan gynnwys yr holl waith hanfodol o gadw cofnodion.
- Cynnal sesiynau briffio a chyflwyniadau i bartneriaid posibl, gan gynnwys Ysgolion, grwpiau leuenctid, timau Gwasanaethau leuenctid, Prince's Trust, timau Troseddswyr Ifanc, ac ati, gyda'r bwriad o ddatblygu partneriaethau gwaith.
- Gweithio yn unol â pholisïau Cyfleoedd Cyfartal, Iechyd a Diogelwch a diogelu Her Cymru, gan sicrhau y cânt eu rhoi ar waith.
- Bod yn rhan o Grŵp Llywio Prosiect *Voyages of Discovery*.
- Ymgymryd â dyletswyddau hanfodol eraill, yn ôl y gofyn, sy'n helpu i gyflawni strategaeth addysgol Her Cymru.

Sgiliau, Gwybodaeth a Galluoedd

Hanfodol

- Addysgu, hyfforddi neu brofiad gwaith ieuenctid a chymwysterau
- Profiad o gyflwyno dyfarniadau addysg anffurfiol
- Gwybodaeth am y Fframwaith Credyd a pholisi Sgiliau Hanfodol Cymru
- Gwybodaeth am weithio ym maes achredu
- Dealltwriaeth o Safonau Ansawdd
- Gradd C o leiaf mewn Saesneg a Mathemateg
- Profiad o weithio gyda grwpiau o bobl ifanc, gan gynnwys pobl nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant.
- Brwdfrydedd, stamina a gallu i ysgogi pobl ifanc a'r gallu i ymgysylltu â phobl ar bob lefel
- Ymrwymiad i ysgogi ac ysbrydoli pobl ifanc wedi dadrithio i gyflawni eu potensial
- Cydymffurfio â deddfwriaeth Cyfleoedd Cyfartal a dealltwriaeth o egwyddorion amrywiaeth ac ymrwymiad i weithio o fewn yr egwyddorion hynny
- Y gallu i fod yn ystyriol ac yn sensitif wrth gyfathrebu ac uniaethu â phobl ifanc a'r asiantaethau a'r gweithwyr proffesiynol sy'n delio â nhw
- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar, a sgiliau rhyngbersonol da, a'r gallu i lunio adroddiadau a chyflwyno cyflwyniadau i amrywiaeth o gynulleidfaoedd
- Parodrwydd i ymgymryd â hyfforddiant parhaus
- Y gallu i weithio ar eich liwt eich hun, gyda chyn lleied o oruchwyliaeth â phosibl mewn amgylchedd prysur a'r gallu i flaenoriaethu a rheoli llwyth gwaith amrywiol
- Gallu gweithio'n dda fel rhan o dîm wrth weithio gydag ymddiriedolwyr neu wirfoddolwyr eraill
- Gallu amlwg i uniaethu â gwaith Her Cymru ac ymrwymiad i'w gwaith
- Sgiliau rheoli amser effeithiol
- Hyddysg ym maes TG gyda phwyslais penodol ar gyflwyniadau a chyhoeddi bwrdd gwaith.

Dymunol

- Profiad blaenorol mewn rôl debyg
- Profiad o asesu cymwysterau ymarferol
- Cymhwyster Dilyswyr
- Cymwysterau addysg priodol ar gyfer gweithio gyda phobl ifanc, er enghraifft, Tystysgrif Addysg, BA mewn Addysg neu waith ieuenctid neu gymhwyster addysgu City & Guilds
- Gwybodaeth ymarferol o ESTYN
- Cymwysterau priodol er mwyn galluogi'r gwaith o asesu cymwysterau ymarferol.

- Gwybodaeth am y gymuned, sefydliad gwirfoddol ac asiantaethau lleol
- Sgiliau cwnsela
- Profiad o ddelio ag amrywiaeth o broblemau sy'n wynebu pobl ifanc o amrywiaeth o gefndiroedd a gweithio gyda phobl nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant.
- Ychydig o brofiad o weithgareddau awyr agored, hwyllo yn arbennig.
- Y gallu i weld sut y gall hyfforddiant hwyllo gael ei ymestyn i raglenni eraill
- Siaradwr Cymraeg